# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 3 Rhagfyr 2002 i'w hateb ar 17 Rhagfyr 2002

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant**
**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**1. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am unrhyw gyfarfodydd y mae wedi'u cynnal gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau i drafod yr effaith a gaiff unrhyw ffïoedd ychwanegol a gyflwynir ar gyfer myfyrwyr prifysgol. (OAQ21213)

**2. Brian Gibbons (Aberafan);** Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i sicrhau bod gwariant ar wasanaethau cyhoeddus yn cyfateb i'r angen ar draws holl ystod cyfrifoldebau'r Cynulliad yng Nghymru, ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau. (OAQ21201)

**3. Alison Halford (Delyn);** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cynnal gyda llywodraeth y DU a heddlu Gogledd Cymru ynghylch trefniadau diogelwch yr heddlu yn nociau Mostyn. (OAQ21211)

**4. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** A oes unrhyw gynlluniau i gyflwyno fersiwn Cymreig o’r Safon ar gyfer Trin Strôc. (OAQ21224)

**5. Dafydd Wigley (Caernarfon);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ei ddyletswyddau fel Cydlynydd polisi'r llywodraeth yn y Gogledd. (OAQ21212) **W**

**6. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynglyn â llunio Cynllun Gweithredu i adfywio economi Abergwaun a Gogledd Penfro. (OAQ21221) **W**

**7. Helen Mary Jones (Llanelli);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch pa gamau y mae ei Lywodraeth yn eu cymryd i hybu ffyniant economaidd yn Sir Gaerfyrddin. (OAQ21214)

**8. Pauline Jarman (Canol De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch a oes gan ei Lywodraeth unrhyw fwriad i gynyddu ei fuddsoddiad cyfalaf yn yr Ysbyty newydd arfaethedig i Blant yng Nghymru. (OAQ21209)

**9. David Davies (Mynwy);** Pa effaith y mae polisïau trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei chael ar Ddatblygu Economaidd yng Nghymru. (OAQ21223)

**10. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ffïoedd ychwanegol ar gyfer myfyrwyr Prifysgol. (OAQ21199)

**11. Christine Chapman (Cwm Cynon);** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i hybu ffordd iach a heini o fyw yng Nghymru. (OAQ21208)

**12. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi ei weinyddiaeth ar ddiwylliant. (OAQ21207)

**13. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A yw'r Prif Weinidog wedi cynnal unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth San Steffan a’r cynulliadau datganoledig eraill am yr effaith y bydd ymuno ag arian sengl Ewrop (yr Ewro) yn ei chael ar economi Cymru. (OAQ21200)

**14. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fwriad Cyngor Sir Caerfyrddin i fuddsoddi £400 miliwn mewn strategaeth i greu a chadw swyddi yn y sir. (OAQ21222) **W**

**15. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda Llywodraeth y DU ynghylch yr effaith y bydd ei pholisi ar hela gyda chwn yn ei chael yng Nghymru. (OAQ21217)